

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru: Ffurflen Asesu Risg ac Effaith

Safle:	Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	Aseswyd gan: Dennis Cattell	Cyfeirnod
Disgrifiad byr o'r tasgau:	Ymwelwyr yn dychwelyd i'r Ardd yn ystod Cam Coch cynllun agor Covid-19.	Cymeradwywyd gan: Tîm yr Uwch-reolwyr	DYDDIAD CREU 25 Mehafin 2020 Dyddiad Adolygu Nesaf: DYDDIAD ADOLYGU Os bydd unrhyw newid neu ar 1 Awst 2020

Iechyd a Diogelwch	Ansawdd a'r Amgylchedd	Tabl Sgôr Risg				
5. Eithafol	5. Eithafol	5	10	15	20	25
4. Mawr	4. Mawr	4	8	12	16	20
3. Colli Amser	3. Bach	3	6	9	12	15
2. Bach	2. Cyfyngedig	2	4	6	8	10
1. Dibwys	1. Dibwys	1	2	3	4	5
Canlyniadau/Tebygolrwydd		1. Annhebygol: Annhebygol o ddigwydd	2. Anaml: Mewn amgylchiadau eithriadol	3. Achlysurol: Yn debygol o ddigwydd rywbryd	4. Aml: Yn debygol o ddigwydd yn rheolaidd	5. Anorod: Bron bob tro

Sgôr Risg	Camau Gweithredu
Ni Ellir Goddef y Risg	Peidio â dechrau gweithio.
Risg Uchel	Gwella trefniadau rheoli, monitro a goruchwyllo. Lleihau i risg ganolig neu is. Adolygu'n aml.
Risg Ganolig	Lleihau lle bo'n ymarferol ac adolygu os bydd newid neu os bydd gwell dulliau rheoli ar gael.
Gellir Goddef y Risg	Digonol, ond adolygu os bydd newid neu os bydd gwell dulliau rheoli ar gael.
Dibwys	Dim camau pellach, cadw'r trefniadau rheoli presennol.

Allwedd i'r Canlyniadau: Yr Amgylchedd ac Ansawdd		Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol	
Dibwys:	(Amg) Dim effaith niweidiol. Deddfwriaeth neu ofynion gorfodol ddim yn gymwys; (Ans) Dim effaith niweidiol ar y busnes.	Dibwys:	Digwyddiadau nad ydynt yn achosi unrhyw effeithiau niweidiol i'r unigolyn.
Cyfyngedig:	(Amg) Posiblirwydd o effaith niweidiol oherwydd agosrwydd neu sensitifrwydd y derbynnwyd. Deddfwriaeth neu ofynion gorfodol yn gymwys ond dim posiblirwydd o dorri deddfwriaeth neu ofynion; (Ans) Posiblirwydd o effaith niweidiol ar weithrediadau busnes.	Bach:	Anafiadau sy'n arwain at lai na 7 diwrnod i fwrdd o alwedigaeth arferol.
Bach:	(Amg) Digwyddiad llygru bach. Rhywfaint o dorri deddfwriaeth neu ofynion gorfodol, neu am gyfnod byr; (Ans) Effaith gyfyngedig ar weithrediadau busnes.	Colli Amser:	Anafiadau sy'n arwain at fwy na 7 diwrnod i fwrdd o alwedigaeth arferol.
Mawr:	(Amg) Digwyddiad llygru arwyddocaol (un derbynnwyd). Torri deddfwriaeth neu ofynion gorfodol; (Ans) Effaith arwyddocaol ar y busnes a/neu golli gweithrediadau busnes.	Mawr:	Anaf, clefyd neu ddigwyddiad mawr fel a ddiffinnir yn y rheoliadau RIDDOR.
Eithafol:	(Amg) Digwyddiad llygru mawr (nifer o dderbynwyr). Erluniad yn anorod. (Ans) Effaith ar y busnes cyfan, colli gweithrediadau busnes.	Eithafol:	Un neu ragor o farwolaethau.

Gweithgaredd	Perygl neu Agwedd	Canlyniad/Effaith/Y Rhai yr Effeithir Arnynt	Sgôr Cyn Rheoli			Mesurau Rheoli a Ddefnyddir	Sgôr Risg Derfynol		
			T	x	C = R		T	x	C = R
Dyletswyddau Parcryn	Blino ar ôl sefyll am gyfnodau hir.	Unigolyn wedi blino'n llwyr neu ddim yn teimlo'n dda.	3	3	9	Parcryn i orffwys yn aml. Defnyddio cadeiriau lle bo'n briodol. Glanhau cadeiriau wrth newid staff gan ddefnyddio'r deunyddiau a ddarparwyd a dilyn yr hyfforddiant.	2	3	6
Dyletswyddau Parcryn	Angen cymryd meddyginiaeth	Mynd yn wael oherwydd methiant i gymryd meddyginiaeth yn rheolaidd fel sy'n briodol.	2	4	8	Parcryn i sicrhau eu bod yn rhoi sylw i unrhyw anghenion meddygol.	1	4	4
Dyletswyddau Parcryn	Dim bwyd, gan na fydd llawer o lefydd gwerthu ar agor yn y cam agor coch	Pobl yn mynd yn wael oherwydd eu bod heb gael bwyd	2	4	8	Parcryn i ddod â'u bwyd eu hunain ar gyfer y diwrnod, a chymryd amser egwyl priodol yn unol â'r oriau a weithir. Darparu staff llanw er mwyn iddynt allu cymryd amser egwyl.	1	4	4
Dyletswyddau Parcryn	Nifer llethol o ymwelwyr	Gwrthdaro os na fydd cwsmeriaid yn cael dod i mewn	5	3	15	Parcryn i gyfyngu nifer yr ymwelwyr i 500 y diwrnod. Rhannu'r wybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy fyrddau ffrâm-A cyn agor.	2	3	6
Dyletswyddau Parcryn	Dal haint gan bobl eraill – Parcryn yn wynebu mwy o risg oherwydd oed, cyflyrau eraill	Pobl yn datblygu salwch ar ôl bod mewn cysylltiad â phobl eraill	3	5	15	Parcryn i ddatgan/cadarnhau nad ydynt yn unigolion agored i niwed, y gallant gyflawni dyletswyddau parcryn ac nad ydynt yn wynebu mwy o risg oherwydd eu bod yn berson a ddylai gael ei warchod. Bydd y rhai sydd yn y categorïau risg uchel yn esgusodi eu hunain o'u dyletswyddau.	2	5	10
Dyletswyddau Parcryn	Dal haint gan bobl eraill – Risg o fewnanadlu. Oherwydd cyswllt agos â phobl eraill	Pobl yn datblygu salwch ar ôl bod mewn cysylltiad â phobl eraill	3	5	15	Gweithredu mesurau cadw pellter cymdeithasol ar draws y safle. Y parcryn i gynnal a gorfodi pellter cymdeithasol o 2 fetr o leiaf ledled y safle. Lle bo'n briodol, y parcryn i wisgo mygydau anfeddygol er mwyn lleihau'r risg o gyswllt ymhellach. Bydd pob Parcmon yn cael	2	5	10

Gweithgaredd	Perygl neu Agwedd	Canlyniad/Effaith/Y Rhai yr Effeithir Arnynt	Sgôr Cyn Rheoli			Mesurau Rheoli a Ddefnyddir	Sgôr Risg Derfynol		
			T	x	C = R		T	x	C = R
						hyfforddiant cynefino â'r safle cyn cychwyn ei ddyletswyddau ar y safle er mwyn ymgyfarwyddo â'r newidiadau a bydd yn dilyn y cyfarwyddiadau i wisgo cyfarpar PPE priodol ar y safle.			
Dyletswyddau Parcmyr	Dal haint gan bobl eraill – Ar ôl cyffwrdd arwynebau	Pobl yn datblygu salwch ar ôl bod mewn cysylltiad â phobl eraill	3	5	15	Gwisgo PPE ar y safle, h.y. gwisgo menig, a golchi dwylo'n aml. Bydd pob Parcmon yn cael hyfforddiant cynefino â'r safle cyn cychwyn ei ddyletswyddau ar y safle er mwyn ymgyfarwyddo â'r newidiadau a bydd yn dilyn y cyfarwyddiadau i wisgo cyfarpar PPE priodol ar y safle. Darparu deunyddiau glanhau a hyfforddiant i alluogi staff i lanhau ardaloedd a chyfarpar a ddefnyddiwyd.	2	5	10
Dyletswyddau Parcmyr	Cyswllt â phobl eraill yn ystod amser egwyl	Pobl yn datblygu salwch ar ôl bod mewn cysylltiad â phobl eraill	4	5	20	Dilyn rota ar gyfer amser egwyl, a phobl i gymryd egwyl ar eu pen eu hunain, yn eu cerbyd eu hunain os dymunant, neu mewn ardaloedd egwyl dynodedig er mwyn cadw ar wahân i bobl eraill. Egwyliau i'w cymryd yn ardal y Mesanîn, yn ddigon clir o'r cyhoedd, neu yn y Pot Blodyn, i'w ddefnyddio gan staff a gwirfoddolwyr. Unigolion i lanhau'r ardaloedd eu hunain gan ddefnyddio'r deunyddiau glanhau a ddarparwyd a dilyn yr hyfforddiant. Dim rhannu bwyd â phobl eraill.	2	5	10
Staff y Porthdy sy'n delio gyda'r cyhoedd	Blino ar ôl sefyll am gyfnodau hir.	Unigolyn wedi blino'n llwyr neu ddim yn teimlo'n dda.	3	3	9	Staff y Porthdy i gymryd egwyl yn aml.	1	3	3
Staff y Porthdy sy'n delio gyda'r cyhoedd	Dim bwyd neu ddioid, gan na fydd llawer o leoedd arlwygo ar agor yn y cam agor coch	Pobl yn mynd yn wael oherwydd eu bod heb gael bwyd	2	4	8	Staff y Porthdy i ddod â'u bwyd a'u dioid eu hunain ar gyfer y diwrnod, a chymryd amser egwyl priodol yn unol â'r oriau a weithir. Darparu staff llanw er mwyn iddynt allu cymryd amser egwyl.	1	4	4

Gweithgaredd	Perygl neu Agwedd	Canlyniad/Effaith/Y Rhai yr Effeithir Arnynt	Sgôr Cyn Rheoli			Mesurau Rheoli a Ddefnyddir	Sgôr Risg Derfynol		
			T	x	C = R		T	x	C = R
						Dim rhannu bwyd neu ddiod â phobl eraill.			
Staff y Porthdy sy'n delio gyda'r cyhoedd	Dal haint gan bobl eraill – Staff y Porthdy yn wynebu mwy o risg oherwydd oed, cyflyrau eraill	Pobl yn datblygu salwch ar ôl bod mewn cysylltiad â phobl eraill	3	5	15	Staff y Porthdy i ddatgan/cadarnhau nad ydynt yn unigolion agored i niwed, y gallant gyflawni eu dyletswyddau ac nad ydynt yn wynebu mwy o risg oherwydd eu bod yn berson a ddylai gael ei warchod.	2	5	10
Staff y Porthdy sy'n delio gyda'r cyhoedd	Dal haint gan bobl eraill – Risg o fewnanadlu. Oherwydd cyswllt agos â phobl eraill	Pobl yn datblygu salwch ar ôl bod mewn cysylltiad â phobl eraill	3	5	15	Gweithredu mesurau cadw pellter cymdeithasol ar draws y safle. Cynnal a gorfodi pellter o 2 fetr o leiaf ar wahân, drwy ddefnyddio marcwyr pellter cymdeithasol ar y llawr a negeseuon ar sgriniau teledu yn y Porthdy. Lle bo'n briodol, staff i wisgo mygydau er mwyn lleihau'r risg o gyswllt ymhellach. Gosod sgriniau persbecs gwell ar gownteri desgiau yn y Porthdy. Darparu tyllau pwrpasol yn y sgriniau ar gyfer peiriannau PDQ a defnyddio dulliau talu digyswllt lle bo'n bosibl. Glanhau peiriannau PDQ os defnyddir y bysellau am unrhyw reswm gan staff y Porthdy gan ddefnyddio'r deunyddiau a ddarparwyd a dilyn yr hyfforddiant. Gellir derbyn arian parod drwy slot yn y sgrin ganolog er mwyn lleihau cyswllt posibl â phobl eraill.	2	5	10
Staff y Porthdy sy'n delio gyda'r cyhoedd	Dal haint gan bobl eraill – Ar ôl cyffwrdd arwynebau	Pobl yn datblygu salwch ar ôl bod mewn cysylltiad â phobl eraill	3	5	15	Gwisgo PPE ar y safle, h.y. gwisgo menig, a golchi dwylo'n aml. Glanhau sgriniau ar ddiwedd pob shift. Glanhau peiriannau PDQ o bryd i'w gilydd. Staff i reoli gofod "personol" wrth y til er mwyn lleihau cyswllt posibl â phobl eraill. Peidio â derbyn arian parod. Yr unig dulliau talu a ganiateir yw dulliau talu digyswllt neu dalu ymlaen llaw. Lle bo'n bosibl, gellir dal drysau ar agor er mwyn gwella llif aer a lleihau cyswllt ag arwynebau.	2	5	10

Gweithgaredd	Perygl neu Agwedd	Canlyniad/Effaith/Y Rhai yr Effeithir Arnynt	Sgôr Cyn Rheoli			Mesurau Rheoli a Ddefnyddir	Sgôr Risg Derfynol		
			T	x	C = R		T	x	C = R
						Arwynebau i'w glanhau gan staff y Porthdy lle bo'n bosibl, pan fydd amser yn caniatáu neu wrth newid staff, ar ddechrau a diwedd pob shift. Gosod sgriniau newydd yn y Porthdy yn lle'r sgriniau presennol, gan eu bod yn rhy isel ar hyn o bryd, oherwydd bod cownteri desgiau pwrpasol y Porthdy yn isel. Darparu tyllau pwrpasol yn y sgriniau ar gyfer peiriannau PDQ a defnyddio dulliau talu digyswllt os yw'n bosibl. Glanhau PDQ os defnyddir y bysellau am unrhyw reswm gan staff y Porthdy gan ddefnyddio'r deunyddiau a ddarparwyd a dilyn yr hyfforddiant.			
Staff y Porthdy – Cymryd egwyl	Cyswllt â phobl eraill yn ystod egwyliau	Pobl yn datblygu salwch ar ôl bod mewn cysylltiad â phobl eraill	4	5	20	Dilyn rota ar gyfer amseroedd egwyl, a staff i gymryd egwyl ar eu pen eu hunain, yn eu cerbyd eu hunain os dymunant, neu yn y Pot Blodyn er mwyn cadw ar wahân i bobl eraill. Awgrymu y gellid cymryd amser egwyl yn ardal y Mesanîn, yn ddigon clir o'r cyhoedd. Dim rhannu bwyd, diod na llestri, a phawb i lanhau ar ei ôl gan ddefnyddio'r deunyddiau a ddarparwyd a dilyn yr hyfforddiant. Cadw pellter cymdeithasol bob amser.	2	5	10
Staff y Porthdy sy'n delio gyda'r cyhoedd	Mwy o amseroedd aros	Pobl yn datblygu salwch ar ôl bod mewn cysylltiad â phobl eraill	4	5	20	Gosod tâp i farcio pellter o ddau fetr yn y Porthdy ac arwyddion clir ar fyrddau ffrâm-A yn nodi rheolau mynediad, dulliau talu h.y. digyswllt yn unig er mwyn lleihau amseroedd aros yn y Porthdy. Parcymyn i reoli mynediad fel mai dim ond un grŵp sydd yn y Porthdy ar y tro.	1	5	5
Staff y Porthdy sy'n delio gyda'r cyhoedd	Cysylltiad â pherson sy'n dioddef o Covid-19	Pobl yn datblygu salwch ar ôl bod mewn cysylltiad â phobl eraill	4	5	20	Y cyfryngau cymdeithasol a hysbysiadau'n gofyn i bobl beidio â dod i'r ardd os oes ganddynt unrhyw symptomau Covid-19.	2	5	10

Gweithgaredd	Perygl neu Agwedd	Canlyniad/Effaith/Y Rhai yr Effeithir Arnynt	Sgôr Cyn Rheoli			Mesurau Rheoli a Ddefnyddir	Sgôr Risg Derfynol		
			T	x	C = R		T	x	C = R
Staff y Porthdy sy'n delio gyda'r cyhoedd	Nifer llethol o ymwelwyr	Gwrthdaro os na fydd cwsmeriaid yn cael dod i mewn	5	3	15	Parcmy n i gyfyngu nifer yr ymwelwyr i 500 y tro, er mwyn lleihau'r pwysau ar dîm y Porthdy. Yn ystod y cyfnod hwn cyfyngir parcio yn y maes parcio i bob yn ail le. Defnyddir arwyddion i gadarnhau hyn a bydd swyddogion yn rheoli'r parcio. Mae'n bosibl y bydd angen cau'r prif gatiau er mwyn cyfyngu ar nifer y ceir sy'n dod i'r maes parcio. Gellir cyfeirio problemau at sylw'r Rheolwr ar Ddyletswydd os oes angen.	2	3	6
Tîm Cyfleusterau – Glanhau Toiledau	Dal haint gan bobl eraill – Ar ôl cyffwrdd arwynebau	Pobl yn datblygu salwch ar ôl bod mewn cysylltiad â phobl eraill	4	5	20	Cau'r toiledau'n rheolaidd i'w glanhau. Gwisgo PPE i wneud y dasg hon. Cael gwared ar yr holl PPE ar ôl cwblhau'r dasg. Glanhau'r arwynebau'n rheolaidd neu ar ôl cyfnod prysur iawn. Dal drysau ar agor lle bo'n bosibl er mwyn lleihau cyswllt a sicrhau bod cyn lleied ag sy'n bosibl o ardaloedd cyswllt y mae angen eu glanhau. Ni chaniateir i aelodau o'r cyhoedd ddod i'r toiledau tra maent yn cael eu glanhau.	2	5	10
Tîm Cyfleusterau – Rheoli ciwiau toiled	Dal haint gan bobl eraill – Risg o fewnanadlu. Oherwydd cyswllt agos â phobl eraill	Pobl yn datblygu salwch ar ôl bod mewn cysylltiad â phobl eraill	4	5	20	Y Tîm Cyfleusterau i wisgo mygydau lle bo'n briodol. Cadw pellter ar wahân bob amser. Defnyddio llinellau i greu pellter rhwng aelodau'r tîm a'r cyhoedd. Defnyddio pabell fawr yn y bloc stablau i ddynodi ardal i aelod o'r Tîm Cyfleusterau. Defnyddio system un ffordd er mwyn rheoli llif i mewn ac allan o ardal y toiledau a chaniatáu mynediad i un teulu ar y tro.	2	5	10
Tîm Cyfleusterau	Cyswllt â phobl eraill yn ystod amseroedd egwyl	Pobl yn datblygu salwch ar ôl bod mewn cysylltiad â phobl eraill	4	5	20	Dilyn rota ar gyfer amseroedd egwyl a phawb i gymryd egwyl ar ei ben ei hun. Staff i lanhau eu hardaloedd egwyl ar ôl gorffen a lle bo'n bosibl i ddefnyddio'u cyllyll a'u ffyrac ac ati eu hunain. Ni chaniateir rhannu unrhyw fwyd na diod gyda	2	5	10

Gweithgaredd	Perygl neu Agwedd	Canlyniad/Effaith/Y Rhai yr Effeithir Arnynt	Sgôr Cyn Rheoli			Mesurau Rheoli a Ddefnyddir	Sgôr Risg Derfynol		
			T	x	C = R		T	x	C = R
						phobl eraill.			
Tîm Cyfleusterau	Dim bwyd na diod, gan na fydd llawer o lefydd gwerthu ar agor yn y cam agor coch	Pobl yn mynd yn wael oherwydd eu bod heb gael bwyd	2	4	8	Y Tîm Cyfleusterau i ddod â'u bwyd a'u diod eu hunain ar gyfer y diwrnod.	1	4	4
Defnyddio'r lifftiau	Dal haint gan bobl eraill	Pobl yn datblygu salwch ar ôl bod mewn cysylltiad â phobl eraill	4	5	20	Dim ond un person i ddefnyddio'r lifft ar y tro, a dim ond pan fo hynny'n hanfodol. Lle bo'n bosibl, dylid defnyddio'r grisiau, a defnyddio'r lifft ar gyfer nwyddau yn unig i atal risg sy'n gysylltiedig â chario eitemau i fyny neu i lawr y grisiau.	1	5	5
Gwerthu Planhigion – Gwerthu planhigion ac offer garddio	Dal haint gan bobl eraill	Pobl yn datblygu salwch ar ôl bod mewn cysylltiad â phobl eraill	4	5	20	Llinellau y tu allan er mwyn sicrhau bod pawb yn cadw pellter cymdeithasol a bod y rheol 2 fetr yn cael ei chadw bob amser. Llinellau wedi'u marcio ar y llwybr er mwyn annog ymwelwyr i gadw pellter oddi wrth grwpiau eraill. Gweithredu camau pellter cymdeithasol ledled y safle. Cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr o leiaf bob amser. Lle bo'n briodol, bydd y staff yn gwisgo mygydau er mwyn lleihau'r risg o gyswllt ymhellach. Defnyddio system un ffordd er mwyn cadw cwsmeriaid ar wahân. Yr holl staff i wisgo siacedi llachar fel bod modd eu gweld yn well ar y safle, ac er mwyn gwneud i bobl deimlo'n fwy cyfforddus o wybod bod nifer o staff yn sicrhau ymddygiad da, ac yn rhoi arweiniad. Rheolir mynediad i gwsmeriaid gan barcryn er mwyn cyfyngu ar y niferoedd. Dim ond un person gaiff ddod i mewn i'r siop ar y tro. Gwneir taliadau'n ddigyswllt lle bo'n bosibl, a hynny y tu allan i'r siop os oes modd neu cyn agosed ag sy'n bosibl at y drws er mwyn diogelu'r	2	5	10

Gweithgaredd	Perygl neu Agwedd	Canlyniad/Effaith/Y Rhai yr Effeithir Arnynt	Sgôr Cyn Rheoli T x C = R			Mesurau Rheoli a Ddefnyddir	Sgôr Risg Derfynol T x C = R		
						staff.			
Y Cyhoedd – Ymweld â'r ardd	Dal haint gan bobl eraill – Risg o fewnanadlu. Oherwydd cysylltiad agos â phobl eraill	Pobl yn datblygu salwch ar ôl bod mewn cysylltiad â phobl eraill	3	5	15	Gweithredu mesurau cadw pellter cymdeithasol ar draws y safle. Cynnal a gorfodi pellter o 2 fetr o leiaf ar wahân, drwy ddefnyddio marcwyr pellter cymdeithasol ar y llawr a negeseuon ar sgriniau teledu yn y porthdy. Lle bo'n briodol bydd y staff yn gwisgo mygydau er mwyn lleihau'r risg o gyswllt ymhellach. Defnyddio system un ffordd i gadw cerddwyr ar wahân i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol. Bydd y parcmy'n helpu i gadarnhau pellter cymdeithasol ledled y safle. Yr holl staff i wisgo siacedi llachar fel bod modd eu gweld yn well ar y safle, ac er mwyn gwneud i bobl deimlo'n fwy cyfforddus o wybod bod nifer o staff yn sicrhau ymddygiad da, ac yn rhoi arweiniad. Bydd nifer o rannau o'r ardd yn dal ar gau yn ystod y cam agor coch. Mae'r rhain yn cynnwys y Labordy Dŵr, y Wenynfa, Tŷ Pilipala, yr Apothecari, y Theatr Glyweledol, y Babel Fawr, Derbynfa'r Bloc Stablau (Staff yn unig), Caffi'r Canoldir, Tŷ Principality, Canolfan Tyfu, y Tŷ Gwydr Mawr (Staff yn unig). Ni fydd gwasanaeth bygis yn ystod y cyfnod hwn ychwaith. Os bydd y posibilrwydd o ailagor unrhyw un o'r rhain yn cael ei ystyried bydd angen adolygu'r asesiad risg hwn.	1	5	5
Cyfathrebu	Negeseuon cymysg i'n cwsmeriaid	Gallai effeithio ar y ffordd y cawn ein gweld yn rheoli iechyd a diogelwch. Potensial ar gyfer cyhoeddusrwydd negyddol, colli ffydd y cyhoedd.	4	4	16	Bydd arwyddion sy'n gysylltiedig ag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu diweddarau cyn gynted ag y gwneir unrhyw newidiadau. Gallai arwyddion eraill, bod yn gyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru neu newidiadau i reolau'r safle hefyd olygu bod angen gwneud newidiadau i'r	2	4	8

Gweithgaredd	Perygl neu Agwedd	Canlyniad/Effaith/Y Rhai yr Effeithir Arnynt	Sgôr Cyn Rheoli			Mesurau Rheoli a Ddefnyddir	Sgôr Risg Derfynol		
			T	x	C = R		T	x	C = R
						arwyddion. Mae angen gwirio bod y negeseuon yn gyson ac yn gyfredol bob amser a'u bod yn cael eu harddangos yn gywir mewn lleoedd amlwg. Mae angen cadarnhau hyn ar y cyfryngau cymdeithasol ac yng ngweithredoedd y staff ar y safle er mwyn sicrhau y dilynir rheolau'r safle er diogelwch pawb.			
Defnyddio'r cawodydd ar y safle	Dal haint gan bobl eraill	Pobl yn datblygu salwch ar ôl bod mewn cysylltiad â phobl eraill	4	5	20	Ni chaniateir i'r staff ddefnyddio'r cawodydd ar y safle ar hyn o bryd oherwydd y perygl penodol sy'n gysylltiedig â hynny, ac nid oes gennym yr adnoddau i gynnal y rhain yn rheolaidd ar hyn o bryd. Mae mwy o risg i ddefnyddwyr ac unrhyw un sydd â'r dasg o lanhau'r cyfleusterau hyn. O ganlyniad, ni chaniateir defnyddio'r cawodydd am y tro. Gosodir arwyddion i hysbysu'r staff. Lle bo'n bosibl, dylid tynnu pennau'r cawodydd fel nad oes modd eu defnyddio. Yn y camau dilynol, pan fydd yr adnoddau'n caniatáu, mae'n bosibl y bydd modd eu defnyddio eto, ond bydd angen gwneud asesiad risg cyn eu defnyddio.	1	5	5
Gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)	Defnydd anghywir, gormod o hyder, camddefnyddio, peidio â dilyn y rheolau yn ymwneud â defnyddio PPE.	Unigolyn yn datblygu salwch	4	5	20	Mae cyfarpar PPE yn bersonol h.y. rhaid eu darparu am ddim yn y man lle cânt eu defnyddio i unrhyw weithwyr sydd eu hangen a rhaid eu defnyddio'n unol â'r cyfarwyddiadau. Ni chaniateir rhannu PPE am unrhyw reswm. Mae hyn yn cynnwys siacedi llachar, oherwydd y gallent fod wedi'u halogi, a phe baent yn cael eu rhannu byddai'r haint yn cael ei drosglwyddo. Dylid golchi eitemau o'r fath yn rheolaidd. Dylid gwisgo mygydau anfeddygol ar gyfer un ymweliad yn unig â'r gweithle a'u golchi wedyn ar 60 gradd C. Yna dylid eu gadael mewn golau haul uniongyrchol am gymaint o amser ag sy'n ymarferol cyn eu	2	5	10

Gweithgaredd	Perygl neu Agwedd	Canlyniad/Effaith/Y Rhai yr Effeithir Arnynt	Sgôr Cyn Rheoli			Mesurau Rheoli a Ddefnyddir	Sgôr Risg Derfynol		
			T	x	C = R		T	x	C = R
						defnyddio eto. Mae angen cael gwared ar fenig untro cyn gynted ag y gwyddys eu bod wedi'u halogi, ac os cânt eu difrodi mewn unrhyw ffordd rhaid gwisgo pâr arall. Ni ddylid eu gwisgo eilwaith am unrhyw reswm, hyd yn oed os ydynt yn edrych yn gyfan ac yn addas i'r diben rhag ofn eu bod wedi'u halogi. Bydd yn rhaid i rai staff wisgo PPE e.e. aelodau o'r Tîm Cyfleusterau sy'n glanhau toiledau ac ati.			
Toiledau – i'w defnyddio gan staff neu ymwelwyr	Dal haint gan bobl eraill	Unigolyn yn datblygu salwch	4	5	20	Cynnal lefelau hylendid uchel, lleihau nifer y bobl sydd yn y toiledau ar adeg benodol i unigolyn neu un grŵp teuluol. Cau'r toiledau'n aml ar gyfer gwaith glanhau ychwanegol. Y prif ddrwsau i'r toiledau i'w dal ar agor lle bo'n bosibl er mwyn lleihau pwyntiau cyswllt.	2	5	10
Defnyddio peiriannau sychu dwylo	Symud aer	Unigolyn yn cael ei daro'n wael	4	5	20	Dylid diffodd pob peiriant sychu dwylo a defnyddio papurau sychu dwylo yn unig.	1	5	5
Defnyddio llai o ddŵr	Bacteria clefyd y lleng filwyr	Posibilrwydd i ddŵr llonydd achosi salwch	2	5	10	Ni chaniateir defnyddio cawodydd. Dylid gwagu dŵr o unrhyw systemau a gwirio'r tymheredd oherwydd y posibilrwydd y gallai bacteria clefyd y lleng filwyr fod yn amlhau mewn systemau dŵr llonydd.	1	5	5
Gwirfoddolwyr / Staff yn defnyddio cemegion	Cyswllt â chemegion	Mewnanadlu cemegion neu gyswllt â chroen.	3	4	12	Darparwyd hyfforddiant yn ymwneud â defnyddio cemegion i'r gwirfoddolwyr a bydd yn cael ei ddarparu i'r holl staff sy'n dychwelyd. Mae golch llygaid wedi'i osod yn y man gwerthu planhigion rhag ofn i gemegion gael eu harllwys yn ddamweiniol. Darparwyd cyfarpar PPE (menig) yn lleol i'w defnyddio, ac mae'r staff wedi cael eu	1	4	4

Gweithgaredd	Perygl neu Agwedd	Canlyniad/Effaith/Y Rhai yr Effeithir Arnynt	Sgôr Cyn Rheoli T x C = R			Mesurau Rheoli a Ddefnyddir	Sgôr Risg Derfynol T x C = R		
						cynghori ynglŷn â sut i'w defnyddio.			
Bwyta	Cyswllt cymdeithasol	Pobl yn dal COVID-19	3	5	15	Ni chaniateir bwyta mewn ardaloedd dan do. Mae nifer y lleoedd eistedd wedi'u cyfyngu ac maent wedi'u gosod 4 metr oddi wrth ei gilydd ar yr iard. Mae'r byrddau'n cael golau haul arnynt, gan ddibynnu ar yr adeg o'r dydd, ond byddant hefyd yn cael eu glanhau cyn i ymwelwyr eu defnyddio. Mae lleoedd eistedd eraill ar gael yn sgwâr y mileniwm, sy'n gwbl agored i olau uwch-fioled. Ni fydd angen glanhau'r rhain mor aml gan fod golau uwch-fioled yn ystod y dydd yn lladd y feirws mewn cyfnod byr. Defnyddio system un ffordd er mwyn sicrhau cyn lleied ag sy'n bosibl o gyswllt â phobl eraill.	1	5	5
Staff yn dychwelyd i'w gwaith ar ôl bod ar ffyrlo	Dim digon o wybodaeth am drefniadau newydd y safle	Gwneud camgymeriadau, a hynny'n arwain at ddigwyddiadau, damweiniau a'r posibilrwydd o achosi risg ddiangen.	5	3	15	Yr holl staff sy'n dychwelyd yn cael hyfforddiant cynefino a chyfle i ymgyswrtio â dulliau newydd o weithio ar y safle. Bydd llawer o'r staff ddim yn hollol ffit i weithio, felly bydd yn cymryd amser iddynt allu gweithio'n gyflym unwaith eto a bydd angen cymryd camau ychwanegol i'w helpu i ddod i arfer â bod yn ôl yn y gwaith.	2	3	6